




Hwyl Ddewi, ar tud.4 ...



tud 3	tud 6	tud 10	tud 12
Pobl a Phethe	Ble yn y byd?	Ymwelydd enwog	Chwaraeon

NID YW'R FELIN....



M.Williams, J.Morgan, L.Mytton a D.Morris Jones

Taniwyd yr ergyd gyntaf yn y frwydr dros ddatblygiad Fferm Wynt Nant y Moch mewn cyfarfod a drefnwyd gan Gymdeithas Mynyddoedd Y Cambrian yn Neuadd Tal-y-Bont ar nos Fercher 17 Chwefror. Roedd y neuadd yn orlawn a dengys hynny ddau beth: bod y cynllun dadleuol hwn eisoes wedi polareiddio barn ac opiniwn; a bod y cynllun yn effeithio ardal eang yng Ngogledd Ceredigion yn ymestyn o gyffiniau Llanilar i Bonterwyd a'r Ffwrnais.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mark Williams yr Aelod Seneddol ac yn ei sylwadau agoriadol fe atgoffodd y gynulleidfa fod y datblygiad yn ymestyn dros 5000 o erwau ac yn golygu gosod ac adeiladu 80 o dwrbeini. Pwysleisiodd hefyd yr angen am gydbwysedd rhwng gofynion lleol a chenedlaethol – cadwraeth a gwarchod ardal o harddwch ar un ochr a'r angen cynyddol am ynni glân ar yr ochr arall.

Y siaradwr cyntaf oedd Lance Mytton, un o ymddiriedolwyr Cymdeithas Mynyddoedd y Cambrian. Cyfeiriodd at fynydd-dir Nant y Moch fel un o'r ardaloedd olaf yng Nghymru heb ei difwyno gan unrhyw fath o ddatblygiad – byddai colli unigedd yr ardal i ddatblygiad fferm wynt yn drasiedi a byddai'r golled yn ddi-droi-nôl, unwaith ac am byth. Ar y pwynt o ostwng lefelau carbon honnodd Mr Mytton bod melinau gwynt y ffordd ddrutaf o wneud hyn ac y byddai angen miloedd o dwrbeini i gael gostyngiad buddiol.

Mae Dafydd Morris Jones yn ffermio yn ardal Ponterwyd ac yn ei gyflwyniad rhoddodd bwyslais ar harddwch eithriadol yr ardal o dan fygythiad. Yn ei farn ef, y ddau ddiwydiant pwysig yw amaethyddiaeth a thwristiaeth – y ddau yn cyd-dynnu ac yn bartneriaid naturiol. Byddai'r datblygiad yn effeithio'r ddau ond yn arbennig twristiaeth. Dadleuodd bod yr harddwch yn rhan

allweddol o'n hanes a'n treftadaeth ac wrth anharddu'r dirwedd byddem hefyd yn colli talp o'n hanes.

Y trydydd siaradwr oedd John Morgan, Moelgoch, Tal-y-Bont. Honnodd na allai fferm wynt fyth gystadlu a dulliau eraill, megis gorsaf bŵer Aberddawan, o gynhyrchu trydan. Cyfeiriodd at y sybseidi gan y llywodraeth ac mae dulliau eraill, megis arbed a chynilo ynni, yn llawer mwy cost-effeithiol. Cloeodd Mr Morgan ei gyflwyniad trwy ddyfynnu emyn enwog Elfed – *Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion*.

Yn dilyn y cyflwyniadau rhoddwyd y cyfle i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau. Mewn gwirionedd yr hyn a gafwyd oedd cyfres o safbwyntiau – rhan fwyaf ohonynt yn wrthwynebus i'r datblygiad. Cyflwynwyd sylwadau am beryglon ynni niwclear, ein

.....i dudalen 5

Cydweithio dros Geredigion.



- ✓ £40 miliwn i Fronglais ac atal cynllun is-raddio ysbytai
- ✓ Buddsoddiad ym Mhrifysgol Llanbed
- ✓ Cynllun newydd i helpu pobl ifanc i ffermio

Mae pobl yn sylweddoli y gwahaniaeth gall Aelod effeithiol fel Elin Jones ei gyflawni.

Meddyliwch beth ellid ei gyflawni gyda llais cryf ac annibynol arall fel Penri James yn rhan o dîm unedig dros Geredigion.

Os am drefnu pleidlais bost, ffoniwch ni ar 01970 617 492

Plaid Cymru. Cyflawni dros Geredigion. Delivering for Ceredigion.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans (01970) 832473 Garnwen, Tal-y-bont SY24 5EY Cysyllter â golygyddion y mis.	post@garnwen.org
Tynnu lluniau:		
GOHEBYDDION LLEOL		
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngwyrion	(01654) 781260
Maes y Deri	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
CYMDEITHAS PAPUR PAWB		
Cadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Is-gaderydd:	Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Dôl Pistyll	832433
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	
832384		
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bleddyn Huws (Tanygrifiadau)	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyr

AT GWSMERIAID AMAETHWYR CLYNDERWEN A CHEREDIGION

Annwyl gyfeillion,
Mae wedi dod yn amser tynnu'r
sbeclod oddi ar fy nhrwyn,
datgysylltu'r cyfrifiaduwr ac
ymddeol

Dymunaf ddiolch i chi
gyd am eich cefnogaeth yn
ystod y 43 mlynedd yn bŵm
yn gwasanaethu yn y gangen
yn Aberystwyth. Rwyf wedi
mwynhau fy amser yn eich
cwmni, cael clonc dros y
cownter a llawer o dynnu
coes. Mae'n hyfryd gweld y
fferm deuluol yn fyw ac yn
iach - mae'r wyrion nawr wrth
y llyw, ond Taid oedd yno pan
ddechreuais i!

Ni fyddwn wedi gallu
cyflawni'r gwaith ar ben fy
hun, mae fy nyled yn fawr

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

i'm cydweithwyr dros y blynyddoedd. DIOLCH O GALON I CHI GYD

Yn gywir,
Alan Co-op (Cyn-reolwr)
(Ac ar ran ei gyfeillion a'i
gwsmeriaid dymunwn y gorau i
Alan ar ei ymddedol)

**Nos Fawrth, Ebrill 6ed
7.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Cwmni Tandem
yn cyflwyno drama
'Chwilyys'
Tocynnau £6 (£5)
Fal Jenkins 01970832560**

**GWASANAETH GLANHAU
PENTREF TAL-Y-BONT A
THALIESIN
FFÔN - 832643**

**Gwasanaethau Rheoli Plaon
Arfordir y Gollewin**
Proffesiynol ac Arwahanol

Mannau Preswyl,
Masnachol ag
Amaethyddol

07738 758063 neu
07528 163027
wcpestcontrol@
btinternet.com

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Geraint, Geraint a
Sian gyda Iolo yn dylunio.
Golygyddion y rhifyn
nesaf fydd
Helen Jones a Ceri Jones.
Dylai'r deunydd fod yn
llaw'r golygydd erbyn
dydd Gwener Ebrill 2 a
bydd y papur ar werth
ddydd Gwener Ebrill 9.

Dyddiadur

MAWRTH

15 Merched y Wawr

Shapeshifters,

Aberystwyth

16 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Noson gremgog

18 Sefydliad y Merched Tal-

y-Bont Ann Owens -

Gwenyn; Testun - Mêl

21 Bethel 10 Parch Ifan Mason

Davies

Nasareth 10 Eifion Roberts (R)

Rehoboth 2 Adrian P

Williams (R)

Eglwys Dewi Sant 11

Cymun Bendigaid

Eglwys St. Pedr Bont-goch

Elerch 2.30 Cymun

Bendigaid

23 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Cyfarfod

26 Clwb Nos Wener

Y Llew Gwyn 8.00

Y Taeogion (Ceri Wyn, Tudur

Dylan ac Emyr Davies). £5

27 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Diwrnod Maes y Sir

28 Bethel 5 Gweinidog

Nasareth 5 Bugail (C)

Rehoboth 5 Judith Morris

Eglwys Dewi Sant 9.30

Boreol weddi

30 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Noson gymdeithasol

EBRILL

02 Bethel 10 Gweinidog

04 Bethel 10 a 2 Parch John

Watkin

Nasareth Uno yn Bethel

Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth

Eglwys Dewi Sant 2.30

Cymun Bendigaid

Eglwys St. Pedr Bont-goch

Elerch 2.30 Cymun

Bendigaid y Pasg

06 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Pwll nofio

Theatr Tandem Chwilyys,

Neuadd Goffa, 7.30

09 CFFI Tal-y-bont a'r cylch

Gala nofio y sir

11 Bethel 2 Gweinidog

Nasareth -

Rehoboth 10 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber

a Chymun

Eglwys St. Pedr, Bont-goch

Elerch Hwylol Weddi a

Festri'r Pasg 2.30

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu eich
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Aileen
Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont
(01970 832438) o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddig gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Jacqui Francis, Plas Cefn Gwyn, Bont-goch ar ddod yn fam-gu am yr eildro. Ganwyd brawd bach i Madoc, sef Harrison Morgan, yn Ysbyty Caer ar 18 Chwefror i'w merch Shelley a'i phriod Tom Rees. Dymunwn yn dda i'r teulu cyfan.

Llongyfarchiadau i Siân Wyn Davies a Sean Dunne, Yr Hen Waith Dŵr, Bont-goch ar enedigaeth eu merch fach Anna Jên yn Ysbyty Gyffredinol Bronglais ar 16 Chwefror. Dymunwn yn dda i'r teulu cyfan, heb anghofio Jac!

Bu Lisa Davies, Llety Ifan-hên, Bont-goch yn cymryd rhan yn y ras noddedig mewn gwisg Gymreig ar hyd prom Aberystwyth ar 28 Chwefror i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion. Llwyddodd Lisa i godi £100 tua at yr apêl ac i gwblhau'r ras mewn amser da.

Llongyfarchiadau i Garmon Gruffudd, Rheolwr Gyfarwyddwr y Lolfa ar ei ddywediad â Hannah Whittle o Cross Hands. Mae Hannah yn gneud doethuriaeth mewn Mathemateg yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Elen Bray Tir Na Nog Tal y Bont ar ennill ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Efrog. Ymchwil Elin oedd bôn-gelloedd ac yn sgil ei llwyddiant mae wedi cael swydd gyda chwmni *Millipore* ac fe fydd yn cydweithio gyda Phrifysgolion yn Ngogledd Ddwyrain Lloegr

Llongyfarchiadau i Siona Laverty ar ennill gradd dosarth cyntaf ym Ngholeg Imperial Llundain a dymuniadau gorau iddi ar gychwyn ei chwrs hyfforddiant fel meddyg

Dymuniadau gorau
Dymuniadau gorau i Clive a Sarah Thomas a'r teulu,

Pobl a Phethe



Ar ôl pedair blynedd ar hugain o wasanaeth i blwyfi Llanfihangel Genau'r Glyn, Llangorwen a Thal-y-Bont mae'r rheithor y Parch Brian Thomas yn ymddeol. Daeth cynulleidfâ deilwng i ddymuno'r gorau iddo mewn gwasanaeth a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant ar Fawrth yr 2ail. Yn y llun mae Miss Margaret Williams, Warden yr Eglwys, yn cyflwyno rhodd i'r Parch Thomas fel arwydd o werthfawrogiad y plwyfolion.

Aldebaran, Bont-goch, sydd wedi symud dros-dro i'r dref am y deuddeg mis nesaf. Croeso i'n plith i Sean, Susan a'r teulu a fydd yn rhentu'r tŷ am y flwyddyn.

Diolch
Mae Cylch Cinio Aberystwyth wedi cyflwyno siec o £100 i Bapur Pawb. Diolch iddynt am ei cefnogaeth.

Priodas Deiamwnd
Llongyfarchiadau i Haydn ac Iris Ebenezer sydd wedi dathlu eu priodas deiamwnd (60 mlynedd) yn ddiweddar, hoffai Mr a Mrs Ebenezer ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion ac am y dymuniadau da maent wedi derbyn.
Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Tessa Evans 15 Maesyderi. Da clywed iddi ddod dros y ddamwain

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau i Josie Smith Dyfi Villa Taliesin a Wendy Foulkes, Hyfrydle ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar

Cydymdeimlo

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Daeth y chwiorydd ynghyd i festri capel Rehoboth, Taliesin brynhawn Mawrth, 9 Chwefror ac estynnodd Eirlys Jones groeso i'r gŵr gwadd, Y Parchedig Elwyn Pryse, Bow Street, a braf oedd croesawu Mrs Pryse i'n plith hefyd. Teitl ei sgwrs oedd 'Siprys' a awgrymai ei fod yn mynd i siarad ar gymysgedd o bynciau. Pan ddechreuodd Mr Pryse ei yrfa fel gweinidog ifanc yn Rhosllannerchrugog roedd yno dri ar ddeg o weinidogion, a chafwyd ganddo sawl stori ddifyr am ei gyfnod yn yr ardal honno. Hefyd adroddodd storïau am weinidogion a chymeriadau ardal ei blentynod mewn modd hwyliog a difyr, a mwynhaodd pawb wrando arno. Paratowyd y lluniaeth gan Barbara Jenkins ac Eiriona Metcalfe.

Rydym yn cydymdeimlo â Myfanwy Rowlands Hafodlasau Taliesin a hefyd Siwan a'r teulu yn Nhal y Bont ar golli chwaer Myfanwy, Tegwen Kettle, Stoke on Trent. Magwyd Tegwen yn Creunant ger Castell Nedd, merch hynaf Gwilym Hopkins a chwaer i Seri a Myfanwy. Yr oedd gwreiddiau Tegwen yn ddwfn yn yr ardal a hithau'n wyres i'r diweddar Mr a Mrs Dafydd Isaac Penygraig Tre'rddol. Roedd yn weithgar iawn gyda'r gymuned Gymreag yn Stoke. Roedd yn ddiagon ac organydd ers bron i ddeugain o flynyddoedd. Urddwyd hi yn yr orsedd yn 2007 a mawr oedd ei llawenydd gael bod yn aelod o'r orsedd pan ddaeth ei chefnder Dic yr Hendre yn Archdderwydd yn 2008. Bu farw yn Leeds yng nghwmni ei theulu, Jane a Rhodri yn mis Chwefror eleni.

Wrth i'r papur fynd i'r wasg daeth y newyddion trist am farwolaeth Mr Dai Davies cyn-feryllydd Tal-y-bont. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei ferched Mair, Sian a Delyth a'u teuluoedd.

Gwellhad

Da gweld Mrs Crugwen Griffiths Glanleri a Mrs Barbara White, Caer'deintur adre ar ôl triniaeth yn ysbyty Bronglais. Danfonwn ein cofion gorau am wellhad buan i Idris Jones Llysynyr. Yn yr un modd dymuniadau gorau i John Evans Pantycelyn Bontgoch.



Noson Hwyl Ddewi

Cafwyd noson arbennig yn Neuadd Tal-y-Bont i ddathlu Gŵyl a Hwyl Ddewi. Roedd y merched wedi paratoi cawl hynod o flasus a diolch iddynt am eu gwaith. Artistiaid gwadd y noson oedd Mair Tomos Ifans, Arfon Gwilym a Sioned Webb ac fe gyflwynwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt. Roeddent wedi gosod tasg o orffen limrig a dyma'r un, o law Falyri Jenkins, Delyth Ifan a Delyth Morgan, a ddyfarnwyd yn fuddugol yn ôl *clapometer* y gynulleidfa.

A glywsoch chi son am y Lolfa,
Cyhoeddwyd rhyw gyfres am Ioga.
Yn glir ar y clawr
Yn syndod o fawr
Ar lawr, roedd Robat mewn lycra.

Merched y Wawr Tal-y-bont



Cangen Tal-y-bont a'r cylch o Ferched y Wawr yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Coginiwyd y cawl blasus gan y cogydd Sion Glyn a pharatodd y swyddogion weddill y bwyd. Cafwyd adloniant gan y gantores Linda Griffiths i gloi'r noson.

Clwb Nos Wener - Al Lewis a'r Band



Ar nos Wener, 19 Chwefror 2010, cynhaliodd Clwb Nos Wener noson yng nghwmni Al Lewis a'r Band.

Ers iddo gipio'r ail wobwr yng Nghân i Gymru 2007, mae caneuon y canwr-gyfansoddwr wedi dod yn adnabyddus gan ryddhau dwy ddisg EP. Yna, yn 2009 fe ryddhaodd ei albwm cyntaf yn y Gymraeg, sef 'Sawl Ffordd Allan'.

Roedd hi'n braf cael clywed nifer o'r traciau oddi ar y disgiau yma ac edrychwn ymlaen at gael Al a'i fand yn ôl i'r Clwb Nos Wener yn y dyfodol.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont (Gw. hefyd tud 8)



Llun: Arvid Parry Jones.

Clwb Ffermwyr Ieuan Tal-y-bont a'r Cylch Morfydd Lewis, Eifion Jenkins Ysgrifenyddion, Rhydian Evans Trysorydd, Eleri James Cadeirydd yn cyflwyno sicciau o £818-66 yr un i dri gwahanol achosion, Carol Grinszpan yn derbyn ar ran Cyfeillion Bronglais, Teresa Jones a Morfydd Williams o Ambiwylans Awyr Cymru, Dana Edwards yn cynrychioli Ffagl Gobaith.

Croesi'r Rubicon –



O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Ychydig wythnosau nol, fe gafwyd cyhoeddiad bod Prifysgol Aberystwyth yn bwriadu cael gwared â 70 o swyddi yn ei Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Roeddwn yn siomedig iawn i glywed am y cynlluniau hyn ac rwyf wedi cwrdd gydag Is-Ganghellor y Brifysgol ynghyd â chynrychiolwyr undeb ar ran gweithwyr y Sefydliad. Fe fydd colli 70 o swyddi da yn ergyd drom i economi ardal Aberystwyth ac mae'n hanfodol

fod y broses ddiswyddo yn dryloyw ac yn cymryd yr holl opsiynau eraill i ystyriaeth.

Ar ddechrau mis Chwefror, fe gynhaliwyd pleidlais ar lawr siambr y Senedd i ddechrau'r broses o gynnal refferendwm i roi pwerau deddfu cynradd i'r Lywodraeth y Cynulliad. Roeddwn yn falch iawn bod pob Aelod Cynulliad oedd yn bresennol ar y diwrnod hwnnw wedi cefnogi'r bleidlais ac fe fydd yn awr angen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ystyried y mater ymhellach dros yr wythnosau nesaf er mwyn symud y broses ymlaen.

Hefyd ar ddechrau mis Chwefror fe fynychais lansiad swyddogol ymgyrch etholiadol San Steffan y Blaid. Fe ddaeth tyrfa dda at ei gilydd yn Neuadd Llwynceyllyn ger Aberaeron ar gyfer y lansiad, ac yn dilyn ychydig o gawl fe gafwyd adloniant o dan arweiniad Dai Jones, Llanilar. Fe roedd Angharad Mair hefyd yn bresennol er mwyn cyfweld ag ymgeisydd seneddol Plaid Cymru, Penri James. Rwy'n edrych ymlaen at gynorthwyo Penri gyda'i ymgyrch dros yr wythnosau nesaf.

Fe wnes hefyd fynychu cynhadledd yn Aberystwyth ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru yn ddiweddar. Fel rhan o'r gynhadledd, roedd yn ffrainc i gael fy ngwahodd i lansiad taflen newydd hyrwyddo Tocyn Crwydro ar hyd yr arfordir ar reilffordd y Cambria. Mae taith trên yn aml yn brofiad dymunol yn ei hun ac rwy'n gobeithio y bydd y daflen hon yn amlygu'r atyniadau sydd ar gael i deithwyr ar eu siwrneiau ar hyd Linell Arfordir Y Cambria.

Os am daci neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

– Cwmni Theatr Bara Caws

Daeth criw da i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ar nos Fawrth, 23 Chwefror, i fwynhau cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Bara Caws, sef 'Croesi'r Rubicon' gan Valmai Jones.

Er mai dim ond dwy actores oedd yn y cynhyrchiad hwn, fe lenwodd Valmai Jones a Christine Pritchard y neuadd gyda'u presenoldeb a'u cymeriadau trylwyr gan hawlio sylw'r gynulleidfa. Fel sy'n arferol yng nghynhyrchiadau'r Cwmni, roedd y llwyfannu'n dda ac roedd digon o droeon annisgwyl i'r sgript. Yn sicr, doedd dim un o'r gynulleidfa wedi rhagweld sgerbwdd mewn cadair olwyn yn ymddangos yn ddirybudd o'r cwprwrdd – yn wir, fe gafwyd ambell i sgrech ymysg aelodau'r dorff!

Diolch yn fawr iawn i Falyri Jenkins am drefnu noson lwyddiannus eleni eto yng nghwmni Bara Caws, ac edrychwn ymlaen at ymweliad Cwmni Theatr Tandem - mewn cydweithrediad â Theatr Bara Caws - â'r pentref ar 06 Ebrill 2010, gyda chynhyrchiad o 'Chwyls' gan Aled Jones Williams.

Cronfa Eleri yn cyrraedd £140,000!

Am yr unfed tro ardded cyfarfu Pwyllgor Cronfa Eleri yn ddiweddar i drafod y ceisiadau a ddaeth i'r Gronfa eleni am gymorth sy'n deillio o elw fferm wynt Mynydd Gorrdu. Cymeradwyodd Cwmni Amgen, sy'n rheoli'r fferm wynt, yr argymhellion. Ychydig dros £14,300 oedd ar gael i'w rannu o Gronfa 2009. Roedd 13 cais am gymorth wedi dod i law, am gyfanswm o dros £27,000 – sef tua dwy-waith y swm oedd ar gael. Rhaid felly oedd i'r Pwyllgor edrych yn agos iawn ar y ceisiadau i benderfynnu pa rai oedd y rhai mwyaf haeddiannol. Dyma restr o'r ceisiadau llwyddianus, gyda'r swm a gynnigir iddynt gan y Gronfa: Cylch Meithrin Penrhyncoch (£1,000); Capel Bethesda Tynant (£1,000); Cymdeithas Papur Pawb (£475); Grŵp crefftau Genau'r Glyn (£300); Clwb Pel-droed Ieuenctid Tal-y-bont (£1,700); Eglwys St Pedr Bontgoch (£5,533); Cylch Meithrin Rhydpennau (£2,000); Llwybr Llen Llanfihangel Genau'r Glyn (£2,000); Cylch Ti a Fi Llandre (£300). Rhaid pwysleisio mai cyfraniadau at gynlluniau penodol oedd rhain i gyd, gyda rhai ohonynt yn galluogi'r ymgeiswyr i gaffael cyfraniadau o gronfeydd eraill yn ychwanegol. Nid yw'n bosib i Gronfa Eleri roi cymorth tuag at wariant rheolaidd cymdeithasau (h.y. arian refeniw). Daw'r rownd bresennol o gymorthdaliadau â'r cyfanswm a gyfranwyd gan Gronfa Eleri, i gefnogi 166 o gynlluniau mawr a bach ers 1998, i tua £140,000. Disgwylir y bydd swm tebyg ar gael i'w rannu eto yn Ionawr 2011 a bydd yr Ysgrifennydd yn derbyn ceisiadau yn ystod mis Rhagfyr 2010.

... o dudalen 1: NID YW'R FELIN....

gorddibyniaeth ar olew a nwy wedi ei fefnforio a'r angen i warchod adar prin a bywyd gwyllt y mynydd-dir.

Y ffaith allweddol yw bod y cyfrifoldeb am ganiatáu y datblygiad yn nwylo'r *Infrastructure Planning Commission*, cwango a sefydlwyd gan lywodraeth Llundain yn 2008. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol sy'n penderfynnu ar geisiadau cynllunio am ddatblygiadau strategol megis ffermydd gwynt. O edrych ar wefan y Comisiwn (infrastructure.independent.gov.uk) gwelir nad oes gan un o'r Comisiynwyr na'r staff hyn unrhyw gysylltiad â Chymru. Mae'n anodd osgoi'r canlyniad mai dull o 'barcio' penderfyniadau anodd yw'r Comisiwn, dim byd mwy, dim byd llai.

Mae'n debyg na ellid disgwyl barn wrthrychol mewn cyfarfod a drefnwyd gan Gymdeithas Mynyddoedd y Cambrian – ac fe gyfeiriwyd at hynny mewn un o'r sylwadau o'r llawr. Beth bynnag yw y farn rhaid i ni gyd fod yn ddigon gonest i ateb y cwestiwn allweddol – pan bwyswn y switsh, o ble daw'r trydan?

CYFARFOD BLYNYDDOL Y NEUADD GOFFA

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Neuadd Goffa nos Fercher Chwefror 10fed pan ddaeth pymtheg ynghyd, yn cynrychioli'r ymddiriedolwyr a'r pwyllgor rheoli, gyda Philip Davies yn y gadair.

Wrth gyflwyno'r fantolen dywedodd y trysorydd cyffredinol fod 2009 wedi bod yn flwyddyn lwyddianus iawn gyda'r gwahanol ystafelloedd wedi eu llogi ar bron 390 o achlysuron. Roedd hyn yn golygu fod yr incwm wedi codi yn sylweddol ond eto yn dal ychydig yn llai na'r gwariant. Roedd pris gwresogi'r ystafelloedd wedi codi yn sylweddol – cyfuniad o'r cynnydd yn y defnydd, y gaeaf oer a'r cynydd ym mhreis nwy. Yn ei adroddiad dywedodd trysorydd y cyfrifon cadw, Goronwy Jones, mai'r gwariant mwyaf oedd y boiler newydd yn y neuadd isaf ond cafwyd nawdd sylweddol tuag at hyn o gwmni Amgen. Cyfeiriodd at y cwymp sylweddol yn y graddfeydd llôg dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r effaith ar yr incwm o'r buddsoddiadau. Wedi adroddiadau'r trysoryddion cytunwyd i adael y prisiau llogi yr un fath am flwyddyn arall.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor rheoli am eu cefnogaeth iddo dros y flwyddyn a'u parodrwydd i roi aml i awr i gadw'r tir o amgylch yn daclus. Roedd y neuadd yn cael ei chadw mewn cyflwr da a'r defnydd o'r ystafelloedd yn dangos ei bod yn gaffaeliad mawr i'r gymuned.

Wrth ethol swyddogion roedd y Cadeirydd yn aros yn ei swydd am yr ail flwyddyn. Etholwyd Bleddyn Huws yn Is-Gadeirydd. Mynegwyd pryder nad oeddem yn medru llanw swydd Ysgrifennydd/es unwaith eto. Ail etholwyd y Trysoryddion.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Megan Mai, groeso cynnes i'r aelodau oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Lun 22 Chwefror.

Datganodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fudd personol yn yr eitem yn ymwneud ag arolwg o'r angen tai lleol ar yr agenda, a datganodd niifer o'r Cyngorwyr fudd personol ar argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol i ddosrannu cymorthdaliadau i sefydliadau a chymdeithasau lleol. Ymneilltuodd yr aelodau o'r ystafell yn eu tro cyn i'r Cyngor drafod y materion perthnasol.

Adroddwyd bod yr awdurdod trwyddedu wedi penderfynu peidio ag adnewyddu'r drwydded i gynnal Gŵyl Gerdd y Sgwâr ar fferm Ynys Ffergi, Y Borth, yn dilyn yr anhrefn gyda'r trefniadau ym mis Awst 2009.

Adroddwyd am fanylion costau archebu bynting a baneri i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Geredigion. Pasiwyd i beidio ag archebu o Swyddfa'r Urdd ond cytunwyd i ddosbarthu taflen yn annog trigolion y pentref sy'n byw ar ochr y ffordd fawr i osod baneri pwrpasol o flaen eu cartrefi i groesawu'r rhai oedd yn teithio i'r Eisteddfod.

Adroddwyd bod modd bellach symud ymlaen gyda rhan gyntaf y cynllun i ledu'r ffordd o Dal-y-bont i Bont-goch rhwng Cwmere a Phlas Cefn Gwyn, a bod rhybudd wedi dod i law o'r Cyngor Sir yn datgan y bydd y ffordd ar gau o 8 y bore ddydd Llun 15 Mawrth hyd 5 y pnaen ddydd Gwener 19 Mawrth.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Digby Bevan, Hwylusydd Tal Lleol Ceredigion, yn amlinellu'r oblygiadau i'r Cyngor fyddai'n deillio o gynnal arolwg o'r angen am dai fforddiadwy o fewn y gymuned. Cytunwyd bod angen mwy o amser i ystyried holl oblygiadau'r cam hwn a phenderfynwyd cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio i drafod y mater ymhellach.

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn bod Cyngor Sir Ceredigion wedi gohebu ymhellach gyda chyfreithwyr datblygwyr Dôl Pistyll i ddweud y byddant yn cymryd materion i'w dwylo eu hunain os na fydd y datblygwyr wedi cwblhau'r gwaith o glirio'r stad erbyn mis Medi. Adroddodd y Clerc iddo gael golwg ar gyflwr yr arhosfan ar y Patshyn Glas a bod gwir angen ei lanhau a'i ailbeintio. Cytunwyd i wahodd peintwyr lleol i anfon tendr am wneud y gwaith.

Adroddwyd bod yr awdurdod cynllunio wedi rhoi caniatâd i ymestyn cyfnod cadw mastiau monitro gwynt Esgair Goch

Enillydd 'Ble yn y Byd?' Mis Chwefror
Eurllys Jones, Eurfan, Tal-y-bont
Ateb: Ar y postyn wrth y Patshyn Glas

a Moel Fferm ar eu safleoedd presennol am bedair blynedd yn rhagor. Un cais cynllunio newydd a ddaeth gerbron y Cyngor, sef i godi un melin wynt 15 metr o uchder ar dir Argoed Fawr at ddefnydd domestig. Dyma'r cais cyntaf o'i fath i ddod gerbron y Cyngor. Cytunwyd i gymeradwyo'r cais i'r Awdurdod Cynllunio fel un i'w groesawu.

Trefnwyd i alw cyfarfod o Is-bwyllgor y Fynwent ym mis Ebrill i adolygu'r prisiau claddu. Hefyd cytunwyd i archebu bin sbwriel newydd i'w osod wrth fynedfa'r fynwent.

Adroddodd y Clerc ei fod yn disgwyl derbyn amcangyfrif gan Gyngor Sir Ceredigion am wneud y gwaith glanhau a thrwsio ar offer y Cae Bach yn unol â sylwadau'r ddau arolwg diweddar.

STORFA CANOLBARTH CYMRU


Mid Wales Self Storage Centre

• STORIWCHE' • RHOWCH DAN GLO •
• CADWCH Y GORIAID •



STORFA
GARTREF

• DIOGELWCH
BT REDCARE
24 AWR



STORFA FUSNES

• CCTV



STORFA I
FYFYRWYR

• WEDI'I GYNHESU

• CIWBICLAU £10 yr
wythnos (250
ciwb)



PACEDU

• ARCHIFAU

01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad


Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, SY24 5EY
erbyn Ebrill 2

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het



CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2010


Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 4 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

- 1 Nofel i blant gan Emily Huws am fywyd merch y mae ei mam yn brwydro dros achosion gwyrdd (3)
- 4 Addasiad Myrddin ap Dafydd o lyfr i blant bach am byped a ddaeth yn fwy (7)
- 7 Cyfenw awdur y ddrama *Tyner yw'r Lleud Heno* (5)
- 8 Ffuglen fyrlymus mewn tair dinas gan Jon Gower (4, 1, 4)
- 9 Nofel wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn gan Alun Jones, *Ac ___ Clywodd Sŵn y Môr* (3)
- 10 Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Lluch* (5)
- 14 Ail nofel Gymraeg Catrin Dafydd (1, 7, 5)
- 19 Nofel gan Meinir Pierce Jones am hen gartref sy'n llawn cyfrinachau (4, 3, 2, 4)
- 21 a 22 ar draws, a 23 i lawr
Clasur o nofel gan Caradog Prichard (2, 3, 3, 5)
- 26 Cyfrol o gerddi gan Dafydd Wyn Jones, *Bro Ddyfi* (9)
- 27 Dau air cyntaf hunangofiant Trebor Edwards (2, 3)
- 28 a 29
Nofel gan Siân Melangell Dafydd a enillodd Fedal Ryddiaith 2009 (1, 6, 3)

I LAWR

- 2 _____ *fy Arglwydd*, cyfrol gan Gwynn Williams am ganolbwynt y neges Gristnogol (5)
- 3 Enw iawn Yogi sydd wedi cyhoeddi ei hunangofiant dirdynol (5)
- 4 *Pedwar _____ Pinc a'r Tei yn yr Inc*, cyfrol gan Myrddin ap Dafydd (4)
- 5 Casgliad o straeon, cerddi a llên meicro gan Manon Rhys (6, 3)
- 6 Cyfrol iasoe gan Dyfed Edwards, _____ a *Storiau Eraill* (5)
- 11 Nofel gan Gareth F. Williams, _____ *Jyncshyn - y ddynes yn yr haul* (4)
- 12 Un o glasuron T. Llew Jones am anturiaethau Twm Siôn Cati, _____ o'r *Diwedd* (4)
- 13 Enw cyntaf awdur y nofel Mr Blaid (4)



Cofiwch mai un llythrennau yw DD, LL, TH

- 15 Enw sarff mewn llyfr gan Gwawr Maelor yn y gyfres *Tipyn o Gês* (4, 5)
- 16 Casgliad o gerddi Margaret Rees Owen, *Cerddi _____-y-cwrt* (4)
- 17 Enw awdur *Cario'r Ddraig - Stori El Bandito* (4)
- 18 *Rhag pob _____*, cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
- 20 Cyfrol gan John Davies a Marian Delyth, _____ y *100 Lle i'w Gweld cyn Marw* (5)
- 23 gweler 21 ar draws
- 24 Cyfenw awdur gwreiddiol *Y Bachgen Mewn Pyjamas* (5)
- 25 _____ *Credu - Hunangofiant Meddy* gan Joshua Gerwyn Elias (5)

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein



CYNGOR LLYFRAU CYMRU



ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2010. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Amser weddol dawel, er prysur iawn sydd wedi bod i fywyd Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont ar ddechrau 2010.

Adloniant Cymraeg yw'r gystadleuaeth gyntaf bob blwyddyn, a drama oedd y math eleni! Catrin Mai fu'n ein cyfarwyddo ni mewn drama, o'r enw *Salwn Sal*, a ysgrifennwyd gan Nansi Pritchard. Cafwyd llawer o hwyl wrth ymarfer acenion Americanaidd er mwyn dynwared y Gorllewin Gwyllt! Cynhaliwyd y gystadleuaeth i lawr yn Felinfach yn ystod wythos hanner tymor, ac fe'n dyfarnwyd yn 9fed!

Yng nghanol yr ymarferion i gyd, llwyddwyd i gynnal noson Bingo, yn y neuadd Goffa, nôl ym mis Ionawr. Braff oedd gweld cymaint o gystadluewyr brwd iawn! Hefyd, buon ni yng Ngwesty'r Marine i gynnal ein cinio blynyddol gyda'n gwr gwadd, Geraint Lloyd i'n diddanu, ac hefyd Martin Griffiths, ein Llywydd am eleni yn rhoi ychydig o'i straeon am ei amser yn y Clwb Ffermwyr Ifanc – diolch yn fawr i'r ddau, ac yn enwedig i'n Llywydd am ei rodd hael.

Gwahoddwyd Clybiau Felinfach a Dinas Mawddwy atom ar ddechrau mis Mawrth drwy gynnal noson o ddramau. Manteisiwyd ar y cyfle i gynnal raffl fawr, a chyflwyno sieciau i'r elusennau Canu Carolau. Diolch yn fawr i Morfudd a Teresa o Ambiwylans Awyr Cymru, Carol Grinzipan o Gyfeillion Bronglais a Dana Edwards o Ffagl Gobaith am ddod atom i dderbyn sieciau o £818.66 yr un; Meinir o fanc Barclays am noddi'r noson; pawb a fu'n hael yn rhoi gwobrwyon i'r raffl; Licyris Olsorts am fenthylg y cefndir; a Ruth Jen am baentio'r set, ac i bawb am gymryd rhan.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Ysgol

Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd Eisteddfod llwyddiannus iawn yn yr ysgol ar Fawrth y Cyntaf i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Braff iawn oedd gweld y neuadd yn llawn dop o rieni a ffrindiau'r ysgol. Dywedodd pawb eu bod wedi mwynhau gweld y disgyblion yn cystadlu ac yn perfformio. Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau:

	1af	2il	3ydd
Llefron Derby	Seamus	Tilly	Steffan, Elijah a Asher
Llefron B11	Ben a Grace	Rowan a Poppy	Ruby a Jasmine
Llefron B12	Willow	Connor, Milly a Luca	Zeb a Mabli
Llefron B13	Ffion	Alfie a Jac	
Llefron B14	Rufus a Maeve	Mollie a Tobia	Thomas, Sarah a Cian
Llefron B15	Nina a Mairead	Josh	Deri, Nansi ac Isabel
Llefron B16	Teib	Jay	Morgan
Cenau Derby	Tilly ac Asher	Steffan	Seamus ac Elijah
Cenau B11	Poppy a Rowan	Ben a Ruby	Jasmine a Grace
Cenau B12	Luca a Willow	Milly a Mabli	Connor a Zeb
Cenau B13	Jac a Nell	Alfie a Ffion	
Cenau B14	Sonny a Thomas	Rufus a Maeve	Cian
Cenau B15	Mairead a Nina	Isabel a Nansi	Josh a Deri
Cenau B16	Teib	Morgan	Jay
Orffwyddol B15a4	Ffion	Maeve a Tobia	Cian a Mollie
Orffwyddol B15a6	Morgan a Nansi	Mairead	Josh a Nina

Diolch i'r beirniaid ar y dydd, sef Mr Fuller a'r Parch Cecilia Charles. Diolch hefyd i Mrs ap Robert (athrawes ysgol Bro Sion Cwilt) am feirniadu'r gwaith Celf, Llawysgrifen a chystadleuaeth y Gadair.

Cyngerdd Offerynnol

Aeth Cyfnod Allweddol 2 i weld y gerddorfa yng Nghanolfan y Celfeddydau, Aberystwyth. Roedd hi'n braff gweld cyn ddisgyblion yr ysgol yn perfformio yn y gerddorfa, ac roedd hyn yn annog y disgyblion i ddysgu offeryn cerddorol yn yr ysgol.

Ysgol

Eisteddfod yr ysgol

Diolch yn arbennig i feirniaid Eisteddfod yr ysgol
Cerdd: Heddwyn Pugh Evans
Llefron: Glyn T Jones
Celf: Llio James
Llên: Delyth Ifan
Cerdd y Gadair: Prifardd Hywel Griffiths
CANLYNIADAU LLAWN YN RHIFYN EBRILL

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ddiweddar. Bydd Glain, Seren, Naimh, y grwp offerynnol a'r côr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r ymarferiadau.

Llongyfarchiadau i Aled ar ennill cystadleuaeth yn Amgueddfa Ceredigion fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Llongyfarchiadau hefyd i Tyrone a Bedwyr am dderbyn canmoliaeth uchel.

Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth cyflym fel ysgyfarnog yn rhedeg yn y cae,
bongos yn taro'n galed,
fel ceffyl yn clopian,
clipti, clop, clipti clop,
ffidil yn chwarae y gyflym
llygoden yn rhedeg o'r gath,
tempo calon yn curo,
lliwiau llachar miwsig hapus,
bloc yn curo cloc yn taro naw,
nodau'n neidio'n uchel,
nodau'n neidio'n isel,
tempo araf fel crwb yn cerdded,
piano tawel fel aderyn bach yn hedfan,
nodau cyflym cheetah yn rhedeg,
crescendo ffidil ffyrnig yn fy nghlust,
miwsig yn mynd yn dawelach fel babi yn mynd i gysgu.

Aled Jones

Llangynfelyn



Mairead Jones o Flwyddyn 5 oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod yr ysgol. Teitl ei cherdd oedd "TEITHIO." Mae Mairead yn ferch i Mike a Teresa Jones o Ynystudur, ger Taliesin. Mae ei brawd ym mlwyddyn 7 ym Mhenweddig (Llyr), Jac ym mlwyddyn 3 a bydd Catrin yn dechrau yn yr ysgol ar ôl y Pasg. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Gweithdy Bwyta'n Iach

Death yr asiantaeth fwyd i'r ysgol i gynnal gweithdy bwyta'n iach a diogelwch bwyd. Cafwyd llawer iawn o hwyl a sbri wrth ddysgu am fwyd a sut i'w gadw'n ddiogel yn yr oergell ac wrth ei baratoi. Cafwyd panto hefyd i'r holl ysgol ac roedd hi'n braf gweld y plant i gyd yn mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg.

PC Hefin Jones

Daeth PC Hefin Jones i'r ysgol i drafod diogelwch croesi'r ffordd fawr gyda'r Cyfnod Sylfaen yn ystod Mis Chwefror. Dysgodd y plant (a'r staff) y ffordd gywir o groesi'r ffordd yn ddiogel.



Trip i'r Bermo

Aeth y Dosbarth Cyfnod Sylfaen ar drip i Bermo ar y tren fel rhan o'u gwaith tymhorol yn ymwneud a theithio. Teithiodd yr ysgol ar fws i Fachynlleth lle daliwyd y tren i'r Bermo. Treuliodd y dosbarth amser ar y traeth i bwyta eu cinio cyn teithio yn ôl i'r ysgol.

Llwyddiant Cenedlaethol

Llongyfarchiadau mawr i tîm gymnasteg yr ysgol a enillodd trydydd wobwr yng nghystadleuaeth Cenedlaethol Gymnasteg yr Urdd. Yn dilyn ein llwyddiant yn y gystadleuaeth Sirol, roedd cystadlu brwd iawn efo 7 ysgol o ar draws Cymru yn ein grŵp ni. Rydym i gyd yn falch iawn o'r tîm a'ch llwyddiant. Diolch i Jenny Dingle am hyfforddi'r tîm

Tal-y-bont



Buddugwyr yn Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont



Eiriona Metcalfe, Cadeirydd Cyngor Llangynfelyn y cyflwyno sicc am £300 i Ellen ap Gwynn sef cyfraniad ychwanegol at Eisteddfod Yr Urdd, a gasglwyd ar daith gerdded nodedig.



Rhian Jones, Swyddog Addysg yr elusen 'Shelter Cymru' yn derbyn sicc o £100 gan aelodau Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont.

Ymwelydd enwog

Bydd enw'r newyddiadurwr Gareth Jones yn gyfarwydd i sawl un ohonoch sy'n dilyn newyddion Cymru yn ddiweddar. Ef oedd yn gyfrifol am ddatgelu i'r byd y newyn mawr yn yr Iwcrain yn 1932-3 a dangoswyd ffilm am ei weithgaredd yn y Llyfrgell Genedlaethol mis diwethaf. Cafodd Gareth Jones ei saethu gan ysbeilwyr ym Mongolia yn 1935 ond nid oes sicrwydd ynglŷn â phwy oedd y tu ôl i'r llofruddiaeth, gyda Rwsia, yr Almaen a Siapan yn cael eu hamau. Roedd Gareth Jones yn hanu o'r Barri ond faint ohonoch oedd yn ymwybodol iddo ymweld â Thal-y-bont yn ystod hydref 1933?



Ar y pryd roedd yn newyddiadurwr gyda'r *Western Mail*, gan deithio Cymru yn Hydref 1933 i adrodd ar 'grefftwyr Cymru'. Mae canlyniad ei ymweliad â Thal-y-bont i'w weld yn y *Western Mail* ar 18 Hydref 1933.

Disgrifia sut y gwelodd ar y ffordd rhwng Aberystwyth a Thal-y-bont orymdaith o ddefaid yn cael eu hebrwng gan gŵn defaid chwim eu troed dan ofal nifer o feibion fferm fochgoch. Yna mae'n gweld yr arwydd 'Lerry Mills' ac yn galw yno. Mae'n cael ei groesawu gan sbaniel brown cyfeillgar ac yn gweld llwyth o frethyn lliwgar mewn stafell hir. Awgryma y byddai'r brethyn tywyll yn

addas ar gyfer diaconiaid capel tra y byddai'r brethyn lliwgar yn apelio at ddandis PG Wodehousaidd.

Cyfeiria at Miss Morgan a oedd yn gyfrifol am werthu'r brethyn. Mae'n cwrdd â W L Morgan y rheolwr, sy'n dangos y carthenni, a'r sanau a gafodd eu gweu gan hen wraig o'r pentref. Credai nad 'mass production' oedd yma ond crefft. Cyflogwyd 10 person i gyd. Defnyddiwyd gwydd llaw (handloom) o hyd a disgrifia J J Richards wrth ei waith.

Dwywedodd WL Morgan wrtho fod y brethyn coch wedi'i iro ag olew a'i wisgo fel cadach gwddf yn dda am wella afiechydon, gan gynnwys cricymalau.

Roedd tri pheth yn plesio'r newyddiadurwr:

1. Mae'n gweld fframwr ifanc yn cludo llwyth o wllân. Mae enw'i fferm, Carreg Cadwgan, yn ei gyfareddu. [Mae'n debyg mai un o deulu Hugh Hughes (1868-1937), a oedd yn ffermio Carreg Cadwgan ar y pryd, fyddai hwn].
2. Mae'n rhyfeddu ar y peiriant cribo o'r enw 'teasler' nad oedd yn cael ei ddefnyddio bellach. Mae'n debyg y defnyddiwyd llysiau'r pannwr ar gyfer y peiriant hwn.
3. Mae'n gweld y fframiau deintur lle y lledwyd y brethyn, gan ddod i ddeall beth oedd tarddiad yr ymadrodd 'on tenter-hooks'.

Gallwch weld yr erthygl ar wefan a luniwyd yn arbennig i gofnodi bywyd Gareth Jones:

http://www.garethjones.org/rural_wales/tweedmakers_talybont.htm

GJ

Doctor Williams

Wrth ysgrifennu am 'Trydan y Doctor' yn Rhagfyr 2008 addewais fanylu ar gyfraniad nodedig y meddyg o Dre'r-ddôl a'i hynafiaid diddorol. Wrth gyhoeddi marwolaeth Dr. David Owen Williams, M.B; C.H.B. ar 8 Mawrth 1948, mae'r *Cambrian News* yn dweud iddo ddisgleirio fel myfyriwr yn Ysgolion Meddygol Prifysgolion Leeds a Llundain, ac iddo weithio fel meddyg ym Mhontypridd cyn mynd i lafurio yn Rhyfel y Boer, 1899-1901. Pan ddychwelodd i'w gartref yn 'Cletwr Hall', Tre'r-ddôl yn Awst 1901 mae'r un papur yn adrodd ei hanes arwrol. Wedi gwasanaethu yn ysbytai Wynberg, Bloemfontein a Pretoria, ymunodd â'r milwyr ar faes y gâd dan arweiniad y Cynrol Baden-Powell. Gwelodd filwyr o Gymru gydag eraill yn cael eu lladd a bu'n gyfyng arno yntau lawer gwaith.

Ni chafodd fawr o gwsg wrth weini ddydd a nos ac wrth fentro ar daith 30 milltir gyda chynorthwyr gydag ysbyty ar gefn ychen. Blinid llawer gan dwymyn yr ymysgaroedd a dioddefodd Dr. Williams a chyd-feddyg o Seland Newydd yn enbyd, a bu'i gydweithiwr farw. Ar ôl bod yn ddifrifol wael yn ysbyty Pretoria am bum wythnos mynnodd ddychwelyd at ei waith peryglus. Bu'n hynod garedig wrth y Boeriaid clwyfedig yn enwedig y gwragedd a'u plant. Ar ôl atgyfnerthu treuliodd y Doctor fwy na deugain mlynedd yn gweithredu fel meddyg ac yn gwasanaethu ei gymuned. Adeg ei farw dywedodd y *Cambrian News*: "Gwelir ei golli mewn sawl cylch yn enwedig ymhlith y tlodion y bu'n eu gwasanaethu ddydd a nos heb anfon bil i neb. Cymeriad diffuant a hoffus".

Roedd y meddyg yn berchen tai a ffermydd megis

Caerglwyddes lle bu 'nheulu i yn byw am ugain mlynedd. Mae Averinah fy nghyfnither yn cofio amdano'n ymweld yn gyson â hi, Gwilym ei brawd, a'u mam, Anti Lisi gweddwr Richard brawd mawr. Byddai'n sylwi fod pyjamas y meddyg i'w weld o dan ei drowsus. Roedd yn gosod y tir i Evansiaid Lletylwydin. Rydw i'n cofio am y doctor yn cerdded drwy Daliesin yn y gwyll yn gwisgo clogyn a chario ffon. Rwy'n cofio un achlysur wedi i'r faciws o Lerpwl ddod atom ac un o'r merched yn cael ei hanafu wrth chwarae gyda ni yn ymyl gweithdy Jac Wynne y crydd. Anfonwyd am y meddyg, gosododd hi ar ei chefn i roi'i hysgwydd yn ôl yn ei lle a hithau'n crio mewn poen. "Be sy ar blant y Saeson yn dod yma i sgrechen", oedd sylw'r meddyg.

Roedd y Doctor yn bysgotwr brwd ac fel ei dad bu am flynyddoedd yn aelod selog o Fwrdd Afonydd Dyfi, Mawddach a Glaslyn. Cynrychiolodd Llangynfelyn ar Gyngor Dosbarth Gwledig Aberystwyth ac yr oedd yn un o gefnogwyr pybyr Sioe Tal-y-bont. Fel ei deulu addolai yn Eglwys Llangynfelyn a gweithredu fel warden am hir flynyddoedd. Mae fy ffrind Olwen Rowlands yn cofio fel y byddai'n tynnu'r blodyn o'i gôt a'i roi ar gofeb cofio'r bechgyn a gollwyd yn y rhyfel wrth adael yr eglwys bob Sul.

Yn ddwyflwydd a phedwar mis ar 24 Tachwedd 1938, roeddwn gyda mam ym mynwent Llangynfelyn pan oedd Esgob Tyddewi yn cysegru'r darn tir newydd a gyflwynwyd gan y chworydd Mrs. Griffin a Mrs Evans, Pengelli, merched yr Esgob William Jones (1822-1897) o'r Gwynfryn, yntau wedi gwasanaethu fel Esgob Tyddewi. Darllenodd Dr. Williams y ddeiseb yn erchi i'r Esgob gysegru'r tir cyn arwain y gynulleidfa fawr o gwmpas y darn newydd. Pan ddychwelwyd at y fynedfa offrymodd yr Esgob weddiau a chysegru'r tir yn y dull arferol. Yn dilyn llafarganu'r Brynhawol Weddi yn yr eglwys gwahoddwyd pawb i de yn y Gwynfryn. W J Edwards

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensoerniol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Salon Leri

Pob agwedd o drin
gwalt gan Richard


10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

TAMLIN YM MOROCCO



Rhai o'r cŵn y bydd Tamlin yn ymdrin â hwy.

Wrth i *Bapur Pawb* ymddangos o'r wasg, bydd un o drigolion Bont-goch yn hedfan o Lundain i Tangier, yng ngogledd Affrica i gynghori brodorion tlawd ardal mynyddoedd y Rif yng ngogledd Morocco gyda nifer o broblemau cymdeithasol. Mae Tamlin Watson, sy'n enedigol o Market Drayton, Swydd Amwythig, a raddiodd o Brifysgol Aberystwyth mewn swleg, ac sy'n dal cymhwyster ychwanegol o Brifysgol Southampton mewn ymddygiad anifeiliaid anwes, wedi byw yn Bont-goch ers 14 mlynedd. Mae'n arbenigwraig ar ymddygiad pob math o anifeiliaid yn cynnwys cŵn, cathod, ceffylau, asynnod a chreaduriaid bach blewog fel cwningod yn ogystal.

Bydd Tamlin yn treulio deg diwrnod ym Morocco yn cynorthwyo gyda phrosiect a ariannir gan Sŵ Caeredin yn yr Alban i geisio hyfforddi saith o gŵn brodorol i ddod o hyd i faw y mwncwn *Barbary Macaque*, sydd erbyn hyn yn brysur mynd yn greaduriaid prin iawn. Bydd canfod y baw, ac yna ei ddadansoddi'n wyddonol, yn fodd i ddeall patrwm byw yr anifeiliaid yma yn well, ac i ddysgu mwy am eu harferion bwyta ac i wybod pa baraseitiaid sy'n effeithio arnynt. Os yw'r cynllun yn llwyddiant yna gobeithir gweld y mwncwn yma'n cynyddu'n sylweddol mewn niferoedd a'r pryder gwirioneddol am eu dyfodol yn lleihau.

Mae Tamlin yn gobeithio medru dychwelyd eto cyn diwedd 2010 i Forocco i gynghori'r brodorion ymhellach gyda phroblemau rheolaeth ar eu cŵn. Mae statws y ci braidd yn ansicr mewn gwlad lle mae'r Mwslemiaid yn ei ystyried fel creadur aflednaid. Ac fel canlynaid mae niferoedd y cŵn gwyllt yn arbennig o uchel, ac maent yn fygythiad cyson i eiddo ffermwyr yr ardal. Gan eu bod yn ymosod a chymryd lloi, wyn ag anifeiliaid eraill, mae'r ffermwyr, sy'n byw mewn tldi enbyd, yn ymateb drwy geisio eu gwenwyno, ac mae hynny yn ei sgil yn creu problemau eraill o ran cadwraeth bywyd gwyllt wrth i hyn effeithio ar y gadwyn fwyd. Mae Tamlin yn gobeithio derbyn nawdd ar gyfer y gwaith hwn, ac mae'n brysur ar hyn o bryd yn cysylltu â nifer o elusennau sydd yn cynnig cymorth ar gyfer cynlluniau o'r math hwn. Mae'n ddiolchgar iawn am y nawdd a'r cymorth meddyginaethol a dderbyniodd hyd yma o law Milfeddygfa Ystwyth, Llanbadarn Fawr ar gyfer y daith gyntaf. Yn y pen draw, nôd y cynllun yn y tymor hir yw ceisio addysgu'r brodorion ac ar yr un pryd anelu i sbaddu nifer uchel o'r cŵn gwyllt er mwyn lleihau eu niferoedd.

Mae Tamlin yn barod iawn i gynghori gyda phroblemau ymddygiad anifeiliaid, a gellir cysylltu â hi ar y cyfeiriad canlynol: e-bost: tamlin.watson@btinternet.com Os hoffech gynorthwyo gwaith Tamlin ym Morocco, byddai'n falch iawn i dderbyn coleri cŵn newydd, neu becynnau o ddanteithion i'w defnyddio gyda'r gwaith hyfforddi.

Dymunwn siwrne ddiogel i Tamlin, a gobeithiwn dderbyn adroddiadau pellach am ei gwaith ar gyfer *Papur Pawb* yn ystod y misoedd nesaf.

Richard E. Huws

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith



Fferm wynt Nant y Moch – a chi

Mae cwmni SSE Renewables (Airtricity gynt) yn gobeithio datblygu fferm wynt Nant y Moch rhwng Tal-y-bont a'r argae.

Rydyn ni ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ymgynghori mawr i roi gwybod i chi beth yn union yw ein cynlluniau ac yn awyddus i gael trafodaeth agored, onest a llawn a dyna pam ein bod wedi:

- Cynnal arddangosfeydd cyhoeddus.
- Penodi swyddog cyswllt cymunedol yn benodol at y gwaith.
- Creu gwefan arbennig gyda newyddion a gwybodaeth.
- Creu grŵp cyswllt lleol.
- Rhoi gwybod am ein cynlluniau yn y cyfryngau lleol.

A dyna pam y byddwn yn cynnal rhagor o arddangosfeydd cyhoeddus yn hwyrach eleni, gan gyhoeddi'r dyddiadau yn y wasg leol.

Y bwriad yw codi fferm wynt a all gynhyrchu rhwng 140 a 170 MW o drydan - sy'n gyfwerth a defnydd trydan tua 65,000 o dai. Rydym yn amcangyfrif y bydd digon o wynt ar y safle i'r fferm fedru cynhyrchu am 70-85% o'r amser.

Bydd hynna'n golygu llai o gynhyrchu trydan trwy losgi tanwydd fel glo - mae ynni gwynt yn ffordd o ostwng lefelau carbon ac o wneud yn siŵr fod gyda ni sicrwydd ynni ... ein bod ni'n gorfod dibynnu llai ar wledydd eraill.

Mae Nant y Moch yr union fath o gynllun sydd ei angen i gyrraedd y ddau nod.

Bydd Ceredigion gam yn nes at gynhyrchu cymaint o drydan ag y mae'n ei ddefnyddio. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.ffermwyntnantymoch.com

Yn falch o weithio mewn partneriaeth gyda Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion 2010.

Swyddfa Gofrestrefrig SSE Renewables Developments (UK) Cyf yw: 2il Lawr, 83-85 Great Victoria Street, Belfast, BT2 7AF Northern Ireland
Gofrestrefrig yng Ngogledd yr Iwerddon Rhif NI043294



Chwaraeon

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Talybont

Ar ôl cyfnod o dywydd oer, a thros 10 wythnos o gêmâu'n cael eu gohirio, braf oedd cael chwarae yn nhwrament Cwpan y Gyngghrair ddydd Sadwrn 27 Chwefror. Cafwyd canlyniadau cymysg i'r timau ar fore gwlyb iawn.

Talybont dan 17

Chwaraeodd y tîm dan 17 yn erbyn Penrhynoch, y tîm ar frig y gynghrair, roedd y gêm yn gyfartal ar ôl 25 munud a hefyd ar ôl 5 munud o chwarae gor-amser. Collwyd o 8 gôl i 7 ar ôl ciciau o'r smotyn – bu'r tîm yn anlwecus iawn.

Talybont Teigars dan 15

Chwaraeodd y Teigars 2 gêm, yr un gyntaf yn erbyn Ieuenctid Llanilar, cafwyd gêm gyfforddus ar ôl dechrau araf ac ennill 2-0. Ymlaen wedyn i'r rownd gyn-derfynol, a chwarae yn erbyn yr hen elyn, Bow Street Magpies. Roedd y bechgyn ar eu gorau wrth guro Bow Street 2-0. Da iawn chi, ymlaen nawr i chwarae yn y ffeinal yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth.

Talybont Taranau dan 15

O'r holl gystadleuaethau, Taranau gafodd y tîm caletaf, gan chwarae yn erbyn Bow Street Tornadoes.

Daliodd y Taranau dîm Bow Street i sgôr 0-0 tan yr 8 munud olaf, gydag ymdrech wych gan y chwaraewyr, ond colli o 3-0 oedd y sgôr derfynol.

Talybont dan 13

Chwaraeodd y tîm dan 13 eu gêm gyntaf yn erbyn Llanilar, roedd hi'n gêm agos iawn, a'r sgôr derfynol oedd 2-1 i Talybont gyda Cai Fitter a Nia Jones yn sgorio. Ymlaen wedyn i'r rownd go-gyn-derfynol yn erbyn y Swans, tîm sydd ar frig y gynghrair. Dechreuodd Talybont yn gryf a dangos i'r Swans eu bod nhw'n gallu chwarae pêl-droed da. Gyda 5 munud i fynd, y sgôr oedd 0-0 a thorodd y Swans drwodd i sgorio yn erbyn rhediad y gêm – anlwecus llwyr. Tarodd y Swans yn ôl yn syth ar ôl ail ddechrau'r gêm gyda gôl arall, a'r sgôr derfynol oedd 2-0 i'r Swans. Rhaid canmol pob chwaraewr yn fawr iawn – da iawn chi.

Talybont dan 11

(blwyddyn 5/6)

Dyma dîm arall a gafodd hwyl arni, gan ennill 1-0 yn erbyn Ystwyth Devils, gydag Ezraha Francois yn sgorio. Collwyd yr ail gêm 1-0 yn erbyn Llewod Padarn, a chafwyd gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Machynlleth. I gyrraedd y rownd nesaf roedd yn rhaid curo Ieuenctid Ystwyth, a chafwyd gêm gyffrous iawn gydag Ezraha Francois yn sgorio 3 gôl i wneud y sgôr yn 3-0. Roedd hyn yn ddigon i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol yn erbyn Llanrhystud Dolphins; cafwyd gêm anodd a brwydro caled, a tharodd Ben Jones-Hughes y bêl i gefn y rhwyd gyda dim ond 3 munud yn weddill, gan sicrhau'r fuddugoliaeth a rhoi hawl i chwarae yn y ffeinal yn erbyn Penllwyn yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth. Da iawn chi – tîm arall ar gyfer y dyfodol.

Talybont Teirw dan 11 (blwyddyn 4/5)

Adran anodd i'r Teirw, a phawb yn chwarae'n dda. Gêm gyfartal 1-1 yn erbyn Penrhynoch oedd canlyniad y gêm gyntaf, gyda Liam Kelly yn sgorio. Collwyd 3-0 yn erbyn tîm Machynlleth, sydd ar frig y gynghrair, a cholli 2-0 mewn gêm agos a chyffrous yn erbyn y Sêr Aur.

Talybont Teriys dan 11

(blwyddyn 3/4)
Roedd 8 tîm yn yr adran hon, a chafodd y chwaraewyr fore prysur iawn. Yn gêm gyntaf y bore, y

sgôr oedd 0-0 yn erbyn Ystwyth Select; yn yr ail gêm 0-0 yn erbyn Penuwch Snipes, ac ennill o 5-0 yn erbyn y Dragons yn y drydedd gêm, gyda Jack Jones yn sgorio 4 a Penri Hughes 1. Cafwyd buddugoliaeth o 1-0 yn y gêm olaf yn erbyn Aber Devils, a Jack Jones yn sgorio. Gyda'u canlyniadau da, aeth y Teriys ymlaen i chwarae yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Aber Celts, ond wedi brwydro a chwarae'n dda, yn anffodus colli fu hanes y Teriys o 3-0.

Diolch i'r holl blant a gymerodd rhan ac i'r Rheolwyr – Clive, Mark, Ceri, Alun, Simon, Sian, Keith, Gareth, Wendy, David, Karen, Wyn a Martin – am eu gwasanaeth drwy gydol y tymor. Diolch hefyd i Gronfa Eleri am eu cymorth ariannol tuag at brynu offer ymarfer newydd i'r plant, ac i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am eu cyfraniad hael.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hyn a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 11982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.



Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



Ffôn 01970 636774